

CBAC Perthnasoedd â Chyhoeddwyr

Mae CBAC yn cadw at Amodau Cydnabyddiaeth Ofqual (1 Medi 2014) a Chod Ymarfer Cytunedig y CGC ynglŷn â pherthnasoedd rhwng Cyrff Dyfarnu a Chyhoeddwyr, Ionawr 2008

Os gofynnir am ganiatâd CBAC wrth lunio cyhoeddiad, rhaid i CBAC wneud y canlynol:

- A. Bod yn rhan o'r drafodaeth am y deunyddiau hyn o'r cychwyn cyntaf;
 - B. Cytuno â'r cyhoeddwyr pwy fydd yr awdur(on). Dim ond awduron y mae CBAC wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig y caiff cyhoeddwyr eu defnyddio.
 - C. Cael y cyfle i ddarllen y deunydd er mwyn gallu gwneud sylwadau amdano a mynnu gwneud unrhyw newidiadau iddo cyn ei gyhoeddi;
 - D. Cymeradwyo'r holl ddeunyddiau cyn rhoi caniatâd terfynol i'w cyhoeddi.
-
1. Fel y gwêl yn ddoeth, bydd CBAC yn enwebu swyddog pwnc neu arbenigwr pwnc annibynnol i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r gwaith; bydd yr arbenigwr pwnc annibynnol a'r cyhoeddwr yn cytuno ar unrhyw dâl am y gwaith
 2. Bydd y cyhoeddwr a CBAC yn cytuno ar amserlen ar gyfer cymeradwyo deunyddiau. Bydd hyn fel arfer yn golygu:
 - o Cymeradwyo amlinelliad o'r deunydd / dull o roi'r deunydd at ei gilydd (yn cynnwys sampl / pennod os gofynnir am hyn);
 - o Cymeradwyo testun pan fydd wedi cyrraedd yr ail broflen yn cynnwys yr holl ddiagramau/mynegeion ac ati.
 - o Os daw'r cyhoeddwr a'r swyddog pwnc i gytundeb am hynny, gall y testun cyflawn fel y mae'r awdur yn ei gyflwyno gael ei gymeradwyo rhwng 1) a 2).
 3. Bydd y cyhoeddwr yn sicrhau bod o leiaf pythefnos ar gael i CBAC gymeradwyo deunyddiau ar bob cam.
 4. Dylai'r datganiad canlynol fod mewn man amlwg ar bob deunydd y caniateir ei gyhoeddi gan CBAC ac ar unrhyw hysbysebu sy'n gysylltiedig â'r gwaith:

Mae'r deunydd hwn wedi'i gymeradwyo gan CBAC ac mae'n cynnig cefnogaeth ar gyfer cymwysterau CBAC. Er bod y deunydd hwn wedi bod trwy broses sicrhau ansawdd CBAC mae'r cyhoeddwr yn dal yn llwyr gyfrifol am y cynnwys.
 5. Pan gyhoeddir y deunydd, bydd logo CBAC o faint priodol ac wedi'i osod fel nad oes unrhyw awgrym bod CBAC wedi cyhoeddi'r adnodd, ar yr un pryd bydd yn gwbl amlwg bod y cyhoeddiad wedi'i gymeradwyo (e.e. "Cymeradwywyd gan .." wedi'i ddilyn gan y logo).
 6. Ni fydd CBAC yn rhoi caniatâd i gyhoeddwyr nodi swyddogaeth awdur o ran y corff ei hun nac o ran maes llafur/manyleb arbennig, heblaw am gyfeirio ato mewn ffordd gyffredinol (er enghraifft 'Arholwr Hŷn' neu 'Uwch Safonwr') neu drwy nodi'r profiad sydd ganddo.
 7. Wrth farchnata adnoddau a gymeradwywyd ni ddylai cyhoeddwyr awgrymu o gwbl bod yr adnodd yn cynnwys gwybodaeth freintiedig gan yr arholwr na bod angen ei ddefnyddio er mwyn cwblhau asesiad neu gymhwyster.
 8. Rhaid i CBAC gael cyfle i wirio unrhyw ddeunydd hyrwyddo, yn cynnwys unrhyw lythyr ategol. Ni ddylai'r naill na'r llall roi unrhyw argraff mai CBAC sy'n ei anfon. Felly mae angen gofalu bod y logo a'r dyluniad / gosodiad yn cael eu defnyddio'n gywir.

9. Ni fydd CBAC yn dosbarthu deunydd hyrwyddo ar ran cyhoeddwr. Fodd bynnag, bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddeunydd a gymeradwywyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cytunedig.
10. Weithiau bydd darparu fersiwn cyfrwng Cymraeg o adnodd a gyhoeddir yn fasnachol yn ddull priodol a chost-ffeithiol o gefnogi ymgeiswyr sy'n dilyn manyleb CBAC trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, bydd CBAC yn disgwyl i gyhoeddwr wneud y canlynol: sicrhau bod yr hawliau ar gael i CBAC gomisiynu cyhoeddi argraffiad cyfrwng Cymraeg dan drwydded gan drydydd parti trwy broses dendro; NEU, gomisiynu cyfieithiad neu addasiad o ran neu'r cyfan o'r argraffiad cyfrwng Saesneg i'w gyhoeddi dan drwydded ar ffurf ddigidol.